Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Gynllunio:
# 11 - Ardoll Seilwaith Cymunedol

Ebrill 2019



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6328**
E-bost: **Senedd.Research@Senedd.Wales**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Diweddariadau mewn amser real** | **Diweddariadau wythnosol a misol**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Gynllunio:
# 11 - Ardoll Seilwaith Cymunedol

Ebrill 2019

**Awduron:**
Elfyn Henderson a Robert Byrne

**Trosolwg o'r papur:**
Nod y briff hwn yw ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin sydd gan Aelodau a'u hetholwyr ynglŷn â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Mae Gwasanaeth Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Robert Byrne gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol, a alluogodd i'r Briff Ymchwil hwn gael ei gwblhau.

# Cynnwys

**Beth yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol? .......................................... 1**

**Beth yw diben yr Ardoll Seilwaith Cymunedol?.............................. 1**

**Pwy sy'n codi Ardoll Seilwaith Cymunedol ac ar ba fath o ddatblygiadau?.............................................................................. 2**

**Beth yw amserlen ar gyfer codi ffioedd, a sut y caiff y cyfraddau eu pennu? ........................................................................................ 3**

**Sut mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn wahanol i gytundebau Adran 106? ........................................................................................ 3**

**Sut bydd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei wario? ....... 5**

**Pa fathau o ryddhad sydd ar gael o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol? .......................................................................................... 5**

**Pa awdurdodau cynllunio lleol sydd wedi cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol? ................................................................... 6**

**Pryd y datganolwyd cyfrifoldeb dros yr Ardoll Seilwaith Cymunedol? ......................................................................................... 6**

**Y prif ffynonellau .......... 7**

Llywodraeth Cymru .......... 7

Llywodraeth y DU .......... 7

Cymorth Cynllunio Cymru .......... 7

Y Porth Cynllunio .......... 7

Ymchwil y Senedd .......... 7

# Beth yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol?

Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) yn dreth datblygu lleol, a gyflwynwyd gan ***Ddeddf Cynllunio 2008*** a ddaeth i rym yng Nghymru a Lloegr ar 6 Ebrill 2010. **Hyd yma, dim ond nifer fach o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru sydd wedi cyflwyno'r ardoll.**

Nod yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yw helpu awdurdodau lleol i godi arian o ddatblygwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau adeiladu newydd yn eu hardaloedd, drwy ofyn am gyfraniadau gan y rhai sy'n gwneud y gwaith datblygu. Gellir defnyddio'r arian a godir i gefnogi datblygiad trwy dalu am ddarparu, gwella, newid, gweithredu neu gynnal ystod eang o brosiectau seilwaith o fudd i'r gymuned.

**Mae cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol gan awdurdod cynllunio lleol yn wirfoddol**, a hyd yn oed pan gaiff ei chyflwyno, gellir ond ei defnyddio i gefnogi datblygiad seilwaith a nodwyd yn flaenorol yng Nghynllun Datblygu Lleol awdurdod.

# Beth yw diben yr Ardoll Seilwaith Cymunedol?

Cyflwynwyd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol oherwydd bod Llywodraeth y DU ar y pryd wedi penderfynu mai'r dull gweithredu tariff hwn sy'n rhoi'r **fframwaith gorau i ariannu seilwaith newydd** i ryddhau tir ar gyfer twf. Mae'n ystyried bod yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn decach, yn gyflymach ac yn fwy tryloyw na defnyddio rhwymedigaethau cynllunio (a elwir hefyd yn gytundebau Adran 106). Gellir defnyddio elw o'r ardoll i ddarparu seilwaith lleol ac isranbarthol newydd i gefnogi datblygiad ardal yn unol â Chynllun Datblygu Lleol awdurdod.

Parheir i ddefnyddio cytundebau Adran 106 hefyd, ond ar ôl cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol cyfyngwyd ar eu cwmpas.

# Pwy sy'n codi Ardoll Seilwaith Cymunedol ac ar ba fath o ddatblygiadau?

Yng Nghymru, mae gan awdurdodau cynllunio lleol (Awdurdodau Unedol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) y grym i godi ardoll. Mae'r awdurdodau hyn i gyd yn paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer eu hardaloedd, sy'n cynnwys asesiad o'u hanghenion o ran seilwaith yn y dyfodol, y gellir casglu'r ardoll ar eu cyfer.

Gall yr awdurdod bennu ffioedd ar sail maint y datblygiad newydd a sut fath o ddatblygiad ydyw. Gall bennu cyfraddau gwahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd daearyddol ac ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau arfaethedig. Dylai'r awdurdod ystyried effaith bosibl yr ardoll ar hyfywedd datblygiad yn ei ardal. Gall bennu cyfradd sero ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad mewn rhai ardaloedd.

Nid yw'r ardoll yn berthnasol i bob math o ddatblygiad. Mae mân ddatblygiadau o faint llai na 100 metr sgwâr wedi'u heithrio yn gyffredinol. Hefyd mae tai hunanadeiladu unigol wedi eu heithrio, ac mae'r un peth yn wir am strwythurau fel tyrbinau gwynt. Mae rhyddhad rhag yr Ardoll ar gael mewn rhai achosion (gweler cwestiwn 7 isod) hefyd. Tirfeddianwyr sy'n gyfrifol am dalu'r ardoll yn y pen draw, ond gall unrhyw un sy'n ymwneud â datblygiad ymgymryd â'r cyfrifoldeb i dalu.

Pan fydd amserlen ar gyfer codi ffioedd (gweler cwestiwn 4 isod) wedi cael ei mabwysiadu'n ffurfiol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio ddarparu gwybodaeth ychwanegol gyda'u cais cynllunio - mae hyn yn helpu'r awdurdod i gyfrifo'r swm sy'n daladwy. Gall awdurdod wrthod derbyn cais cynllunio heb y wybodaeth ychwanegol hon. Os yw'r awdurdod yn rhoi caniatâd cynllunio, bydd hefyd yn rhoi Hysbysiad Atebolrwydd Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Mae hawl i apelio yn erbyn gwahanol agweddau ar daliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol, gan gynnwys apeliadau ynghylch a yw swm sydd wedi'i gyfrifo yn gywir ai peidio, a hefyd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ei dalu.

## Beth yw amserlen ar gyfer codi ffioedd, a sut y caiff y cyfraddau eu pennu?

Os bydd awdurdod am gyflwyno Ardoll Seilwaith Cymunedol, rhaid iddo yn gyntaf gynhyrchu **amserlen ddrafft ar gyfer codi ffioedd** a fydd yn destun archwiliad annibynnol, ac yna rhaid ei mabwysiadu'n ffurfiol.

Mae'n rhaid i awdurdod sy'n bwriadu casglu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol nodi ei gyfraddau ardoll ar yr amserlen ar gyfer codi ffioedd. Y cyfraddau yw'r swm i'w godi fesul metr sgwâr o'r datblygiad newydd. Dylai awdurdodau sy'n codi ffioedd ystyried polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol a nodir ym **Mholisi Cynllunio Cymru** wrth ddrafftio eu hamserlenni ar gyfer codi ffioedd**.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu **canllawiau ar lunio amserlen ar gyfer codi ffioedd,** i gynorthwyo awdurdodau cynllunio yng Nghymru.

Bwriad yr ardoll yw annog datblygiad drwy greu cydbwysedd rhwng casglu refeniw i ariannu seilwaith tra'i bod yn sicrhau nad yw'r cyfraddau mor uchel nes eu bod yn golygu bod datblygu ar draws yr ardal mewn perygl difrifol. Felly dylai'r cyfraddau arfaethedig gael eu cefnogi gan dystiolaeth ar faterion fel **hyfywedd economaidd** datblygiadau newydd ac **anghenion yr ardal o ran seilwaith**. Rhaid i awdurdodau sy'n codi ffioedd ymgynghori â'u cymunedau lleol - gan gynnwys busnesau lleol ac awdurdodau cyfagos - o ran eu cyfraddau arfaethedig ar gyfer yr ardoll. Mae gan unrhyw un yr hawl i roi eu barn ar amserlen codi ffioedd ddrafft a gyhoeddwyd. Rhaid i'r amserlen gael **archwiliad cyhoeddus** gan yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd cyn y gall yr awdurdod codi ffioedd ei mabwysiadu'n ffurfiol.

## Sut mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn wahanol i gytundebau Adran 106?

Mae cytundebau Adran 106, a elwir hefyd yn rwymedigaethau cynllunio, yn gytundebau cyfreithiol sydd ynghlwm â chaniatâd cynllunio unigol ac maent yn gosod gofynion lleol, er mwyn sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio (gweler ein briff ar wahân ar gytundeb Adran 106). Bwriad yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yw darparu seilwaith i gefnogi datblygiad ardal yn hytrach na gwneud ceisiadau cynllunio unigol yn dderbyniol o safbwynt cynllunio. Yn wahanol i'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, mae cyfraniadau o dan gytundebau Adran 106 yn agored i drafodaeth.

Nid yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn disodli cytundebau adran 106, ond ni ellir gwneud cais am rwymedigaeth gynllunio ar gyfer seilwaith y bwriedir iddo gael ei ariannu gan y CIL, os yw CIL yn gweithredu yn yr ardal honno.

Cyflwynodd **Rhan 11 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010** gyfyngiadau statudol ar ddefnyddio cytundebau Adran 106 ar gyfer datblygiadau lle gellid codi ffioedd CIL, p'un a yw'r CIL wedi'i gyflwyno yn yr ardal honno ai peidio. Y prif reswm am hyn yw er mwyn osgoi'r sefyllfa bosibl lle gallai datblygwr fod yn talu drwy gyfrwng yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r cytundeb Adran 106 am yr un peth. Y cyfyngiadau yw bod yn rhaid i rwymedigaeth cynllunio fod:

- yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
- yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad; ac
- yn gysylltiedig yn deg ac yn rhesymol o ran graddfa a math â'r datblygiad.

P'un a yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi cael ei chyflwyno mewn ardal ai peidio, ym mis Ebrill 2015 cyfyngodd Llywodraeth y DU ar nifer y cyfraniadau Adran 106 y gellir eu "cronni" i dalu am seilwaith newydd. Yn flaenorol gallai cyfraniadau o'r fath gan nifer o ddatblygiadau gwahanol gael eu casglu ynghyd i dalu am seilwaith newydd, fel ysgol newydd, ond bellach caniateir cronni uchafswm o bum cyfraniad o'r fath ers mis Ebrill 2010. Mae hyn er mwyn annog rhagor o awdurdodau cynllunio lleol i fanteisio ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Dylai awdurdodau sy'n cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol gyhoeddi rhestr o'r prosiectau hynny neu fathau o seilwaith y maent yn bwriadu eu cyllido, neu y gallent eu cyllido, drwy'r ardoll (a elwir yn **Restr Rheoliad 123**). Wedyn, gall cytundebau Adran 106 gael eu defnyddio ar gyfer materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â safle penodol yn unig, ac nad ydynt wedi'u nodi ar restr Rheoliad 123. Gallai enghreifftiau gynnwys darparu mynediad uniongyrchol i'r safle, amddiffyn rhag llifogydd a mesurau i warchod bywyd gwyllt, a darpariaeth hamdden ar y safle, er enghraifft lle agored.

# Sut bydd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei wario?

Gellir defnyddio'r ardoll ar gyfer amrywiaeth o seilwaith, fel ffyrdd a thrafnidiaeth, ysgolion a chyfleusterau addysgol, amddiffynfeydd rhag llifogydd, cyfleusterau meddygol, cyfleusterau chwaraeon a hamdden, a mannau agored, ar yr amod bod y rhain wedi cael eu nodi yng Nghynllun Datblygu Lleol yr awdurdod. Fodd bynnag, ni ellir ariannu **cyfraniadau tai fforddiadwy** drwy'r ardoll, a lle mae'n berthnasol, dylid ceisio'r rhain drwy gytundebau Adran 106.

Gall awdurdodau sy'n codi ffioedd wario'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar brosiectau seilwaith y tu allan i ardal yr awdurdod, er enghraifft ar waith amddiffyn rhag llifogydd. Gall awdurdodau codi ffioedd gwahanol hefyd gyfuno cyfraniadau i ddarparu seilwaith a fyddai o gymorth i ddatblygiad yn eu hardaloedd.

Bwriedir i'r ardoll ganolbwyntio ar ddarparu seilwaith newydd, ac ni ddylid ei defnyddio i gywiro diffygion sy'n bod eisoes yn y ddarpariaeth seilwaith, oni bai y bydd y diffygion hynny'n cael eu gwneud yn fwy difrifol gan ddatblygiad newydd. Gellir ei defnyddio, fodd bynnag, i gynyddu capasiti seilwaith presennol neu i atgyweirio methiant yn y seilwaith.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf 15 y cant o'r ardoll a gesglir yn cael ei drosglwyddo i **Gynghorau Cymuned** lle mae datblygiad wedi digwydd. Os nad oes Cyngor Cymuned, bydd yr awdurdod sy'n codi ffioedd yn cadw derbynebau'r ardoll, ond dylai ymgysylltu â'r cymunedau perthnasol a chytuno â hwy beth yw'r ffordd orau i wario'r arian.

# Pa fathau o ryddhad sydd ar gael o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol?

Mae'r Rheoliadau'n gwneud nifer o ddarpariaethau i awdurdodau sy'n codi ffioedd roi rhyddhad o'r ardoll. Mae rhai mathau o ryddhad yn orfodol, tra bod eraill yn cael eu cynnig yn ôl disgresiwn yr awdurdod codi ffioedd.

Yn dibynnu beth yw'r amgylchiadau, mae amrywiaeth o ostyngiadau ar gael i elusennau, sefydliadau tai cymdeithasol ac i'r rhai sydd mewn "amgylchiadau eithriadol". Mae hyn yn ychwanegol at yr esemptiadau ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad. Mae rhagor o wybodaeth am ryddhad o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gael o wefan Llywodraeth y DU.

# Pa awdurdodau cynllunio lleol sydd wedi cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol?

Dim ond tri awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru sydd wedi cyflwyno'r Ardoll hyd yma. Yr awdurdodau hynny yw **Caerffili, Merthyr Tudful** a **Rhondda Cynon Taf**. Mae dau awdurdod, sef **Caerdydd a Sir Fynwy** wedi cyhoeddi amserlenni drafft ar gyfer codi ffioedd rhagarweiniol hyd yma. Mae pedwar awdurdod sef **Sir Gaerfyrddin, Conwy**, **Casnewydd** a **Thorfaen** yn ymgynghori ar amserlenni drafft ar gyfer codi ffioedd rhagarweiniol. Mae **Bro Morgannwg** wedi penderfynu dechrau gwaith ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.

# Pryd y datganolwyd cyfrifoldeb dros yr Ardoll Seilwaith Cymunedol?

Pan gyflwynwyd yr Ardoll yn wreiddiol yn 2010 gan *Ddeddf Cynllunio 2008* (fel y'i diwygiwyd), roedd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn fater heb ei ddatganoli. Fodd bynnag, roedd ***Deddf Cymru 2017*** (a oedd yn diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*) yn datganoli rhagor o bwerau i Gymru, gan gynnwys yr Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol i basio deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Roedd ***Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018*** hefyd yn trosglwyddo'r swyddogaethau gweithredol angenrheidiol i Weinidogion Cymru i gyd-fynd â datganoli'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Daeth hyn i rym ym mis Mai 2018.

# Y prif ffynonellau

## Llywodraeth Cymru

Mae **adran gynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth gan gynnwys:

- **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10 Rhagfyr 2018)**
- **Canllawiau ar lunio amserlen ar gyfer codi ffioedd Ardoll Seilwaith Cymunedol: Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL): Llunio Amserlen ar gyfer Codi Ffioedd, 2011**

## Llywodraeth y DU

Mae Gweinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU yn darparu gwybodaeth am yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, er bod rhywfaint o'r cynnwys yn berthnasol i Loegr yn unig. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys:

- Canllawiau ar sut y mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn gweithredu: **Guidance: Community Infrastructure Levy**
- Canllawiau ar apeliadau yn erbyn yr Ardoll Seilwaith Cymunedol: **Community Infrastructure Levy - Appeals**

## Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru**, sy'n helpu unigolion a chymunedau cymwys i gymryd rhan fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth.

## Y Porth Cynllunio

Y **Porth Cynllunio** yw adnodd rheoliadau cynllunio ac adeiladu Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod rhywfaint o'r cynnwys yn berthnasol i Loegr yn unig.

## Ymchwil y Senedd

Mae briffiau cynllunio eraill a gynhyrchir gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd ar gael ar **wefan Ymchwil y Senedd**, ac ar ein blog: **Pigion / planning**